



# Arloesol. Talentog. Cyflogadwy.

Cysylltu'r dalent amrywiol  
orau gyda chyflogwyr  
blaengar.

Datblygwch eich sefydliad  
a rhwch hwb i yrfaeodd  
graddedigion a myfyrwyr  
prifysgol uchelgeisiol sy'n  
anabl.





# Helô

Ni yw Leonard Cheshire - yn cefnogi unigolion anabl i fyw, dysgu a gweithio mor annibynnol ag y dewisant, beth bynnag fo'u gallu. Wedi ein harwain gan bobl sydd â phrofiad o anabledd, rydym wrth wraidd bywyd lleol – yn agor drysau at gyfleoedd, opsiynau a chymorth mewn cymunedau ledled y byd.

Yn 2013, gwnaethom lansio Change 100 gyda'r nod o newid y dirwedd gyflogaeth ar gyfer myfyrwyr a graddedigion diweddar sy'n anabl.

Drwy weithio gyda'n cyflogwyr partner i ddatblygu diwylliannau gweithleoedd cynhwysol, rydym yn anelu at gael gwared ar rwystrau a chreu cyfleoedd ar gyfer pobl anabl i gyflawni eu potensial.

## A wyddoch chi?

**Bydd 1 ym mhob 5**

person yn dod yn anabl yn ystod eu hoes\*

**Mae 77%**

o fyfyrwyr a graddedigion diweddar sy'n anabl yn poeni y byddant yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn pe baent yn datgelu eu hanabledd i gyflogwyr\*\*

\*Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2018

\*\*GreatWithDisability.com, Openness: understanding why students are reluctant to be open with employers about their disability, 2015

# Beth yw Change 100?

Mae Change 100 yn rhaglen sydd wedi ennill gwobrau, yn cynnig lleoliadau gwaith â thâl dros yr haf, a sesiynau mentora i fyfyrwyr a graddedigion diweddar sy'n anabl.

## Ein cymhelliant

Nod Change 100 yw datgloi potensial myfyrwyr a graddedigion diweddar sy'n anabl, a rhoi mynediad i sefydliadau at gronfa dalent anhygoel, sy'n llawn gallu, creadigrwydd a mewnwleidiad.

## Eich cyfle

Rydym yn chwilio am gyflogwyr i gynnig tua 100 o ddiwrnodau ar leoliadau â thâl dros yr haf i gyfranogwyr. Mae interniaid Change 100 eisoes wedi gadael eu marc gyda 225 o gyflogwyr blaengar. Waeth pa mor fawr neu fach yw eich sector neu sefydliad, neu'r cyfleoedd sydd gennych chi ar gael, rydym yn eich gwahodd i brofi buddion Change 100. Rydym wedi llwyddo i gyflwyno lleoliadau yn gyfan gwbl o bell, ac yn gallu cynnig lleoliadau o'r fath i chi, pe baent yn bodloni eich anghenion busnes.

# 70:24

Merched:Dynion\*

# 44%

Y cyntaf o'r teulu i fynd i'r brifysgol

# 44%

Du a lleiafrif ethnig

# 100%

Wedi datgelu o leiaf un anabled

\*Gweddill y cyfranogwyr wedi dewis 'Traws', 'Arall' neu 'Byddai'n well gennyf beidio â dweud' Ystadegau cyfranogwyr 2022



“

**Mae'r cymorth sydd ar gael yn wych, ac felly mae'n hawdd i reolwyr penodi prysur ymrwymo i'r broses. Mae ansawdd yr ymgeiswyr bob amser yn uchel.**

”

Y Tîm AD, Skanska

# Pam cymryd rhan?

## **Mynediad at dalent parod**

Wedi'u dewis o blith ymgeiswyr rhagorol, gallwch gael mynediad at dalent nad ydych wedi gallu'u cyrraedd drwy ddefnyddio dulliau dethol a recriwtio traddodiadol.

## **Cyfle masnachol**

Amcangyfrifir bod y 'bunt borffor' yn werth tua £249 biliwn y flwyddyn.\* Bydd cyflogi pobl anabl yn rhoi mewnelediad hanfodol i chi er mwyn eich helpu i fod yn fwy effeithiol wrth werthu i bobl anabl ledled y byd.

## **Bod yn fwy hyderus o ran anabledd**

Rydym yn deall y gallai fod pryderon ynghylch defnyddio iaith briodol a chefnogi gweithwyr anabl. Bydd ein harweiniad, hyfforddiant a chymorth yn cynnig cyngor syml i staff, ynghyd â hyder a safbwyntiau newydd. Gall cymryd rhan yn Change 100 eich helpu i gael eich cydnabod fel Cyflogwr sy'n Hyderus o ran Anabledd.

## **Gwella morâl gweithwyr**

Mae'n debygol y byddwch eisoes yn cyflogi pobl anabl nad ydynt wedi datgelu eu hanabledd. Bydd cymryd rhan yn Change 100 yn anfon neges gadarn i'ch gweithwyr eich bod yn gyflogwr cynhwysol a chefnogol.

## **Gwasanaethu eich gweithwyr presennol yn well**

Mae 83% o bobl anabl yn dod yn anabl yn ystod eu bywyd gwaith.\*\* Mae'r rhan helaeth o'r bobl hyn yn gallu parhau yn eu swyddi presennol, gan gymryd bod eu cyflogwyr yn gallu gwneud addasiadau i'r gweithle.

\*Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2018

\*\*Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, Rethinking disability at work, 2017



## Fel partner Change 100, byddwch yn cael:

- Intern rhagorol, wedi'i ddewis drwy broses drylwyr ond gynhwysol, dan reolaeth tîm Change 100 a'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan
- Sesiwn hyfforddiant anabledd a chyflogaeth, a sesiwn frifio intern unigryw ar gyfer pob aelod o staff sy'n ymwneud â'r rhaglen
- Cymorth parhaus drwy gydol tri mis yr interniaeth
- Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae sawl interniaeth wedi'u cyflawni o bell gyda'r mwyafrif sylweddol yn ymgymryd â dull cyfunol neu weithio o gartref, pan fo angen. Gallwn gynnig arweiniad ynghylch sut i greu lleoliadau o bell, gan gyflwyno cyfleoedd i ystod ehangach o interniaethau rhagorol

## Bydd eich sefydliad hefyd yn elwa ar:

- Cyfleoedd datblygu ar gyfer eich staff – gofynnwn eich bod yn cynnig aelod o staff i fentora intern, gyda'n cymorth ni, ar ei daith Change 100. Rydym yn cynnig adnoddau a chymorth parhaus ar gyfer mentoriaid yn eich sefydliad
- Cyfleoedd i rwydweithio gyda chyflogwyr Change 100 eraill – rydym yn cynnal digwyddiadau rheolaidd er mwyn rhannu arfer gorau mewn perthynas ag anabledd
- Byddwn yn eich hysbysebu am ddim yn ein holl weithgareddau marchnata i fyfyrwyr ar gampysau ledled y DU, a sefydliadau eraill rydym yn cysylltu â nhw, a fydd yn rhoi mynediad i chi at gronfa ehangach o dalent
- Arddangos ymrwymiad i amrywiaeth, ac i wella arferion cynhwysol o fewn eich sefydliad

# Rhai o'n partneriaid cefnogi



ARTS COUNCIL  
ENGLAND

ARUP

 AutoTrader

**BBC** STUDIOS



Companies House



Essex County  
Fire & Rescue Service



European Bank  
for Reconstruction and Development

FREETHS

GOCARDLESS




HIPCNOISIS

IHG<sup>®</sup> HOTELS &  
RESORTS



LexisNexis<sup>®</sup>





# Mae 980

o interniaethau Change 100 ar gyfer pobl anabl wedi'u cyflawni gan ein partneriaid ers 2013.

# Cost

Mae cymryd rhan yn Change 100 yn costio £3,250 + TAW fesul intern, yn ogystal â chyflog yr intern ar gyfer hyd y lleoliad. Rhaid i'r cyflog fodloni'r gyfradd fesul awr a argymhellir gan y Living Wage Foundation, neu ragori arno: [www.livingwage.org.uk](http://www.livingwage.org.uk)

**Yn ystod y naw mlynedd diwethaf:**

## Mae 95%

o gyflogwyr yn cytuno bod eu hintern Change 100 wedi cael effaith gadarnhaol ar eu sefydliad

## Mae 93%

o gyflogwyr yn cytuno bod ewyllys dda ymysg staff wedi gwella o ganlyniad i well ymwybyddiaeth a hyder mewn perthynas ag anabledd

# Eich intern Change 100

Mae pob intern Change 100 wedi ennill gradd israddedig 2:1 neu 1af, neu mae disgwyl iddynt wneud\* ac yn gymwys i weithio yn y DU am hyd lleoliad llawn amser dros yr haf.

Rydym yn asesu yn erbyn y galluoedd canlynol:

- Datrys problemau
- Gwaith tîm
- Trefn
- Menter
- Addasrwydd
- Hunan-ddatblygiad
- Hunan-fyfyrio

\*Bydd tîm Change 100 yn ystyried amgylchiadau sy'n ymwneud ag anabledd neu gyflwr yr intern.



Whatson

Change  
100

# Dyddiadau allweddol

## Hyd 2022

---

Ymgyrch hyrwyddo a recriwtio mewn prifysgolion

## Hyd 2022 - Ion 2023

---

Ffenestr ymgeisio i fyfyrwyr

## Ion - Chwef 2023

---

Llunio rhestr fer o ymgeiswyr a chanolfannau asesu, ar y cyd â chyflogwyr sy'n cymryd rhan

## Maw - Mai 2023

---

Y broses baru, ar y cyd â chyflogwyr sy'n cymryd rhan

## Mai 2023

---

Hyfforddiant anabledd a chyflogaeth gyda sesiwn unigryw am yr intern ar gyfer cyflogwyr

## Meh - Medi 2023

---

Cyfnod lleoliad a dechrau ar raglen ddatblygu broffesiynol ar gyfer interniaid

Cymorth parhaus i gyflogwyr drwy gydol yr haf

## Medi - Rhag 2023

---

Parhau â'r rhaglen ddatblygu broffesiynol gyda digwyddiad graddio ym mis Rhagfyr

## Sut allwch chi ddechrau ar eich taith Change 100?

Cysylltwch â thîm Cysylltiadau Cyflogwyr Change 100 ar:

**020 3242 0200**

**[change100@leonardcheshire.org](mailto:change100@leonardcheshire.org)**

**[leonardcheshire.org/employer100](https://leonardcheshire.org/employer100)**

Mae Leonard Cheshire Disability yn elusen gofrestredig rhif: 218186 (Cymru a Lloegr) a rhif: SC005117 (Yr Alban), a chwmni cyfyngedig drwy warant gofrestredig yn Lloegr rhif: 552847. Rhif TAW. 899 3223 75. Swyddfa gofrestredig: 66 South Lambeth Road, London SW8 1RL.

**Mae Llywodraeth y DU wedi canmol Change 100 am "fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn farchnad lafur y DU... gyda'r nod o newid y dirwedd gyflogaeth ar gyfer myfyrwyr anabl."**